Syniadau A.G.

Tymor y Gwanwyn 2008 ***Pris £1.00***

Eluned Jones, Llanfechell, Ynys Môn

Addysg Grefyddol a Byd Gwaith

Rhifyn 2: Cyfnod Allweddol 2

Erbyn iddynt gyrraedd Cyfnod Allweddol 2 bydd y plant yn ymwybodol o nifer o wahanol swyddi sydd yn bodoli, ac yn gwybod am sawl agwedd o fyd gwaith yn yr ardal leol. Wrth ddatblygu a dod i ddeall mwy am eu bywydau a'u personoliaethau eu hunain, dônt i ddechrau gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.

Cael y plant i drafod: Efallai y byddant eisoes wedi trafod pam a ble mae pobl yn gweithio. Ymestyn hyn ymhellach drwy ystyried cwestiynau megis 'ydy gofalu am y teulu a'r cartref yn swydd?'. Rhaid dangos sensitifrwydd mewn sefyllfaoedd pan geir sylwadau megis 'Does neb yn ein tŷ ni yn mynd i weithio'

Edrych yn fanylach ar wahanol swyddi: ceisio eu dosbarthu i wahanol grwpiau.
Teuluoedd Swyddi - swyddi sy'n disgyn i grwpiau arbennig e.e. gofalu am bobl eraill, gofalu am yr amgylchfyd, diddanu pobl, crefftau o bob math.
Wrth wneud hyn, byddant yn dechrau gweld patrymau, ac yn sylweddoli beth yw'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â byd gwaith.

Chwarae rôl: Pa fath o rinweddau a sgiliau sydd eu hangen mewn byd gwaith?
Cyflwyno tasgau syml fydd yn dangos arwyddocâd gonestrwydd, dyfalbarhad, gofal, gweithio gydag eraill, amynedd, brwdfrydedd, ffyddlondeb, cyfeillgarwch a datrys problemau.
A ydy'r plant yn gallu meddwl am enghreifftiau o rannu balchder yn eu llwyddiant eu hunain ac eraill? Sut mae hyn yn gallu digwydd yn y gweithle?
Bydd bod yn berchen ar sgiliau arbennig ym myd gwaith yn bwysig ym mhob agwedd o fywyd, ac yn rhai y gellir eu trosglwyddo o un swydd i'r llall, ac o un sefyllfa i'r llall.

Sut mae cael swydd?: Defnyddio'r trafodaethau uchod ar gyfer llunio hysbyseb am swyddi. Wrth ymgeisio am swydd, mae'n rhaid cael sgiliau arbennig yn ogystal â chymwysterau.

Cynnal ffug gyfweliadau: Meddwl am gwestiynau i'w gofyn, fydd yn dangos pa sgiliau a rhinweddau personol sydd gan yr ymgeiswyr.

Gwahodd pobl i'r dosbarth: heddlu, brigâd dân, rheithor neu weinidog.
Cael yr ymwelwyr i osod sialensiau syml i'r plant, fydd yn gwneud iddynt feddwl am rai dewisiadau anodd sy'n rhaid eu gwneud weithiau. Bydd yn ffordd iddynt ddatblygu sgiliau datrys problemau ac yn eu cynorthwyo i chwilio am ystyr a phwrpas. Byddant yn mynegi eu teimladau a'u barnau eu hunain, a chydnabod safbwyntiau pobl eraill.

Arweinwyr Crefyddol: Sut maent yn cyfrannu i fywydau pobl yn ystod camau arbennig ar daith bywyd – defodau a dathliadau geni a phriodi, cyfnodau o salwch a phrofedigaeth.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle.
Mae angen codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth gyda'r disgyblion yn gyffredinol, ac un ffordd o wneud hynny yw drwy edrych ar agweddau o fyd gwaith yn benodol. Oes yna reolau sy'n ymwneud â chydraddoldeb o ran rhyw, hil, anabledd, oedran a chrefydd? Sut mae cyflogwyr yn cyfrannu tuag at ddileu anffafriaeth a hyrwyddo cydraddoldeb? Oes diffyg sylw yn cael ei roi i stereoteipio o ran rhai swyddi arbennig? Ydy merched a dynion yn cael cyfleoedd mewn swyddi sydd ddim wedi bod yn draddodiadol ar eu cyfer yn y gorffennol?
Mae hawliau o ran Iechyd a Diogelwch yn bwysig hefyd.
Ceir gwybodaeth i athrawon ar wefan www.equalityhumanrights.com (gyda rhai adnoddau Cymraeg)

Ydy cyflogwyr a busnesau yn gallu bod yn hyblyg o ran gweithwyr gyda theuluoedd ifanc ac oedrannus? Gallai'r plant feddwl am ffyrdd o wneud hynny.

Yn benodol o ran crefydd – ydy'r cyflogwyr yn rhoi ystyriaeth i anghenion personol y gweithwyr a defnyddwyr eu gwasanaethau e.e.
Preifatrwydd
Ystafell ar gyfer myfyrio a gweddïo
Gwig a symbolau crefyddol arbennig,
Bwyd arbennig megis Halal neu Kosher yn cael ei gynnig yn y cantîn
Beth ydy'r cyfyngiadau?
Mae'r gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn un sefydliad sy'n rhoi sylw penodol i nifer o'r agweddau uchod drwy gynllun 'Cynnig Gwasanaethau Iechyd sy'n Ddiwylliannol Gymwys'

Efallai y gellir cyfeirio at wasanaeth Bancio Islamaidd, sy'n deillio o gredoau a dysgeidiaeth Fwslemaidd, ac yn rhan o 'Zakah', gyda'r pwyslais ar beidio gwneud elw personol a rhoi rhan benodol o'u heiddo i elusen.

Masnach Deg
Cyflwyno'r syniad o bris teg am gynnyrch, a rhai o'r elfennau sy'n gyfrifol am gyfoeth a thlodi yn y byd.
Mae llawer o wybodaeth i'w gael am Sefydliad Fairtrade.

Ar y safle www.fairtrade.org.uk, bydd yn bosib i'r plant chwilio am wybodaeth ynglŷn â sefydlu'r fenter. Sut mae wedi gweithio ym Mhrydain ac ar draws y byd? Bydd cysylltiadau i wefannau eraill megis, Oxfam, Traidcraft, Cymorth Cristnogol, Tearfund sy'n rhan o'r frwydr yn erbyn anghydraddoldeb. Mae yn defnyddio eu doniau a'u profiadau eu hunain wrth weithio mewn swyddi sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill, a sicrhau fod cynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu yn cael gwell bargen. Mae mudiadau megis Traidcraft yn defnyddio byd masnach i frwydo yn erbyn tlodi.

Ewch ar wefan www.dubble.co.uk i weld ffordd hwyliog o ddysgu am Fasnach Deg, gydag adnoddau athrawon ar gael yno.

Beth am fod yn ysgol Fasnach Deg? Ceir gwybodaeth a chefnogaeth ar wefan www.peopleandplanet.org.uk/tradejustice/ Mae adnoddau ar gael ar gyfer addoli ar y cyd a gweithgareddau ymarferol yn y dosbarth.

Sut mae crefydd wedi effeithio yn uniongyrchol ar Fasnach Deg - Mudiadau megis y *Methodist Relief and Development Fund.* Rhai pobl yn awyddus i ymateb yn uniongyrchol ac yn bositif i ddysgeidiaeth Iesu Grist, drwy wneud eu rhan i helpu eraill mewn rhai o gymunedau tlotaf y byd.

Byddai ymweld â'r siop Co-op leol yn rhoi cyfle i'r disgyblion ddysgu am ymdrech un cwmni i godi ymwybyddiaeth o fasnach deg.

Gwirfoddoli: Mae hyn yn cysylltu'n agos gyda'r uchod ar sawl agwedd.
Beth yw'r dylanwadau crefyddol sy'n arwain pobl i wirfoddoli? Mae hyn yn gyfle i'r plant feddwl am rai cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol a rhannu syniadau drwy drafod. Byddant yn dechrau cydnabod pwysigrwydd crefydd ym mywydau pobl, ac yn datblygu goddefgarwch a pharch.

Pwy sy'n gwirfoddoli - e.e. pobl ifanc yn cael profiadau newydd ac ehangu eu dealltwriaeth
Pobl wedi ymddeol – eisiau rhannu eu profiadau, arbenigedd a'u hamser
Ydy'r plant yn adnabod rhywun sy'n gwirfoddoli yn lleol? Pa fath o bethau maent yn ei wneud? Beth am wirfoddoli yn rhyngwladol?

Un ffordd dda o gael y plant i drafod gwirfoddoli a mudiadau elusengar yw drwy edrych ar ymgyrchoedd megis diwrnod Trwynau Coch a Phlant Mewn Angen. Maent yn gyfarwydd â'r digwyddiadau yma ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Wrth fynd un cam ymhellach, bydd modd iddynt weld sut mae'r holl arian a godir yn cael ei ddefnyddio gan y gwahanol asiantaethau i ymateb i amgylchiadau personol, gwaeledd, tlodi, trychinebau naturiol, rhyfeloedd ac ati. Bydd yn ffordd iddynt feithrin agweddau cyfrifol mewn cymdeithas leol a byd-eang

Caethwasiaeth

Bu 2007 yn flwyddyn arbennig o ran dathliadau daucanmlwyddiant Deddf Diddymu Caethwasiaeth. Mae'n sicr y bydd y plant wedi gwneud gwaith ar hyn yn barod, ac wedi defnyddio pecynnau adnoddau a ddatblygwyd gan nifer o sefydliadau.

Mae adnoddau am gaethwasiaeth modern ac ymgyrchoedd i'w ddileu ar gael gan Ganolfan Stapleford www.stapleford-centre.org a hefyd ar www.setallfree.net a www.antislavery.org

Mae plant bach yn dal i gael eu gorfodi i weithio mewn rhai gwledydd. Beth yw barn y disgyblion am hyn?

Gwaith yn gysylltiedig â'r Byd Naturiol:

Pobl sy'n gweithio yn yr awyr agored ac yn gyfrifol am ofalu am yr amgylchfyd.

Rhoi cyfle i'r disgyblion holi rhywun sy'n gweithio yn y sector yma. Byddant yn gallu ystyried yr angen i barchu byd natur a rhai o'r rhesymau crefyddol dros wneud hynny.

Yn fwyfwy heddiw, mae pwyslais yn cael ei roi ar ein cyfrifoldeb tuag at y Blaned, gyda chyflogwyr/siopau mawr a bach yn ceisio lleihau gwastraff a llygredd a hybu siopa 'gwyrdd'. Am fwy o wybodaeth ewch ar wefan *Shop Smartly Green* www.smartlygreen.com

Beth am ffermwyr? Sut mae'r tymhorau yn effeithio ar eu gwaith? Sut maent yn teimlo wrth i fywyd newydd gyrraedd y fferm ar enedigaeth llo neu oen bach?

Ydy hyn i gyd yn eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb o ran stiwardiaeth a chynaladwyedd?

Gwyliau crefyddol yn gysylltiedig â Diolchgarwch - a'r traddodiad o ddiolch am y cynhaeaf. Bydd modd i'r disgyblion chwilio am wybodaeth mewn llyfrau a gwefannau.

Sut mae Storïau Beiblaidd yn yr Hen Destament a damhegion Iesu Grist wedi dylanwadu ar bobl yn y gweithle ers hynny? Ceir nifer o gyfeiriadau at natur a byd gwaith ynddynt. Oes cymariaethau y gellir eu gwneud gyda sefyllfaoedd heddiw?

Mae cyfleoedd i athrawon eu hunain gael dysgu mwy am fyd gwaith drwy fynd ar Leoliadau Datblygiad Proffesiynol undydd gyda Phartneriaeth Addysg Busnes. Mae rhai perthnasol yn cynnwys asiantaethau yn ymwneud â'r amgylchfyd a gofal cymdeithasol. Bydd modd gwneud cysylltiadau defnyddiol gyda chyflogwyr a busnesau gwahanol, ar gyfer trefnu ymweliadau gyda disgyblion. Bydd cael ymweld â safleoedd gwaith yn brofiad arbennig i'r plant. Cant gyfle i siarad yn uniongyrchol gyda'r gweithwyr. Cewch fwy o wybodaeth gan gwmni Gyrfa Cymru yn eich hardal chi. Mwy o wybodaeth am fyd gwaith i athrawon ar gael ar www.gyrfacymru.com adran Pobl Broffesiynol

ADNODDAU MAGC *(Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)*

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o *'Syniadau AG'* ar gael.

Cyhoeddiadau Cynradd - *Pobl Arbennig – mewn ffydd a gweithred ; Adegau Arbennig Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Iesu - Ei bwysigrwydd i gredinwyr; Mannau Arbennig – Eu harwyddocad i gredinwyr*

Cyhoeddiadau Uwchradd – *What the Welsh Churches say on moral and social issues; Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol.*

Cyffredinol: *More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)

Disgownt ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr

Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX (Tel/Ffacs: 01654 - 761 697) e bost: sali@patshyn.fsnet.co.uk

© MAGC 2008